

Ffurflen Flynyddol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2023

Datganiadau cyfrifyddu 2022-23 ar gyfer:

Enw'r corff:

CYNGOR TREF PORTHMADOG

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2022 (£)	31 Mawrth 2023 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	64,917	64,407	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	62,581	62,581	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	9,562	33,387	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw.
4. (-) Costau staff	9,646	12,669	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, lwfansau trehadwy, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a chostau terfynu. Eithriwch adalu mân dreuliau.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	63,007	93,210	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (linell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (linell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	64,407	54,497	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr	0	0	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	64,407	54,497	Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc.
10. (-) Credydwyr	0	0	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	64,407	54,497	Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	24,527	31,443	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad gan drydydd partion ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Cyngor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Canllaw i Ymarferwyr	
	Do	Naddo*			
<p>1. Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. 	✓	<input type="radio"/>	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith.	6, 12	
<p>2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.</p>	✓	<input type="radio"/>	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7	
<p>3. Cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/ Pwyllgor i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol.</p>	✓	<input type="radio"/>	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6	
<p>4. Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.</p>	✓	<input type="radio"/>	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â buddiant archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23	
<p>5. Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.</p>	✓	<input type="radio"/>	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff ac ymdrin â hwy'n briodol.	6, 9	
<p>6. Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.</p>	✓	<input type="radio"/>	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8	
<p>7. Ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, yn cael effaith ariannol ar y Cyngor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.</p>	✓	<input type="radio"/>	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6	
<p>8. Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.</p>	✓	<input type="radio"/>	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23	
<p>9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – Mae'r corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ar gyfer cronfa (cronfeydd)/asedau ymddiriedolaeth ac yn gyfrifol am eu reoli. Rydym yn eithrio trafodion sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolaethau hyn o'r Datganiad Cyfrifeg. Yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas â'r atebolrwydd dros y gronfa(cronfeydd) gan gynnwys adrodd ariannol ac, os oes angen, arolygiad neu archwiliad annibynnol.</p>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Amh ✓	Cyflawni ei holl gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol.	3, 6

* Ar ddalen ar wahân, rhochwch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Nodiadau datgelu ychwanegol *

Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol

1. Gwariant dan A137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac A2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Mae Adran 137(1) Deddf 1972 yn caniatáu i'r Cyngor wario ar weithgareddau nad oes ganddo unrhyw bwerau penodol eraill ar eu cyfer os yw'r Cyngor o'r farn bod y gwariant er lles, ac y bydd yn dwyn budd uniongyrchol i, yr ardal neu unrhyw ran ohoni, neu'r cyfan neu rai o'i thrigolion, ar yr amod bod y budd yn gymesur â'r gwariant. Mae Adran 137(3) hefyd yn caniatáu i'r Cyngor ysgwyddo gwariant at rai dibenion elusennol ac eraill. Yr uchafswm gwariant y gellir ei ysgwyddo dan adran 137(1) a (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 oedd £8.82 yr etholwr.

Yn 2022-23, fe wnaeth y Cyngor daliadau yr oedd eu cyfanswm yn £11,300.94 dan adran 137. Mae'r taliadau hyn wedi'u cynnwys o fewn 'Taliadau eraill' yn y Datganiad Cyfrifyddu.

2.

3.

* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blyneddol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor

Y Cyngor/Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blyneddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.	Cymeradwyaeth gan y Cyngor Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor o dan gyfeirnod cofnod:
	Cyfeirnod cofnod: 40.5.23
Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:
Marian Roberts	<i>Aled Griffith</i>
Enw: MARIAN ROBERTS	Enw: ALED GRIFFITH
Dyddiad: MAI 9 2023	Dyddiad: MAI 9 2023

Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Cyngor Tref Porthmadog

Mae archwiliad mewnol y Cyngor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2023.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys **	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	✓	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	✓	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	✓	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	✓	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	✓	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
6. Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	✓	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	✓	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	✓	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	✓	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	✓	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
11. Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol). Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	✓	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
12. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
14. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Cyngor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Cyngor dyddiedig Ebrill 2023]

Cadarnhau archwiliad mewnol

Yr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Bleddyn Rhys, Cyngor Gwynedd

Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: *Bleddyn Rhys*

Dyddiad: 18/04/23